# Addurniadau Nadolig Synhwyraidd



**Beth am roi cynnig ar greu addurniadau Nadolig persawrus o ffrwythau?**

## Bydd angen:

- 1 oren
- 2 lemon
- 2 leim
- Clofs
- Cyllell finiog
- Bwrdd torri
- Tun pobi gyda phapur gwrth-saim

# Addurniadau Nadolig Synhwyraidd

## Cyfarwyddiadau



1. **Gofynnwch am help oedolyn i wneud hyn!** Defnyddiwch y gyllell yn ofalus i dorri'r ffrwythau'n dafelli crwn.



2. Rhowch y darnau ffrwythau ar y tun pobi.

3. Stwffiwch ambell glof i rai o'r ffrwythau.



4. Rhowch y tun pobi yn y popty ar wres isel iawn am 2 awr. Trowch nhw drosodd hanner ffordd drwodd. Dylent sychu yn y popty a gadael arogl Nadoligaidd hyfryd yn y tŷ.

# Addurniadau Nadolig Synhwyraidd

## Sut i'w defnyddio?

Mae llawer o ffyrdd i ddefnyddio'r darnau hyn o ffrwythau sitrws sych i addurno eich cartref.

Gallwch eu hongian ar linyn i greu garlant i'w arddangos.





Gallwch greu cardiau Nadolig prydferth gyda nhw, neu eu defnyddio i addurno torch Nadolig

Neu gallwch roi nhw mewn powlen hardd neu fag bach er mwyn gwneud i'ch tŷ arogli fel y Nadolig!